

***Adroddiad
Blynyddol
y
Llywodraethwyr
i
Rieni***



2018 / 2019

Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr i Rieni 2018/2019

Adroddiad y Llywodraethwyr

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,

Braint a phleser yw eich cyfarch fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin wrth gyflwyno i'ch sylw caredig, yr adroddiad hwn o weithgaredd yr ysgol am y flwyddyn a aeth heibio. Bu'n flwyddyn arall yn llawn prysurdeb a gweithgarwch. Mae pob llywodraethwr yn ei hystyried hi'n fraint o gael bod yn rhan o deulu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac yn ymfalchio yn ei holl lwyddiannau.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob aelod o staff am eu hymroddiad lwyr i bob agwedd o fywyd yr ysgol. Heb eu gwaith diflino hwy fe fyddai bywyd academiaidd ac arallgyrsiol y disgyblion dipyn tlotach.

Yn ogystal a chanmol y staff, rhai canmol y disgyblion hefyd am eu llwyddiannau amrywiol, ac am ymateb mor gadarnhaol i'r holl gyfleodd sy'n cael eu cynnig iddynt. Mae ystod y gweithgareddau o fewn yr ysgol yn rhyfeddol, a phleser bob tro yw darllen adroddiad y Pennaeth yn ein cyfarfodydd. Cawn ein llenwi a rhyfeddod a balchder yn gyson.

Mae'n ddylestwydd arnaf hefyd i ddiolch i chi, rieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth i'r bobl ifanc ac i'r ysgol. Nid tasg hawdd yw magu ieuencid yn yr oes hon gan bod y disgwyliadau mor uchel, a'r pwysau ar eu hysgwyddau o amryw gyfeiriadau yn medru bod yn drwm iawn ar adegau, ond gwyddom fel ysgol, wrth gydweithio â chi'r rhieni a gwarcheidwaid, bod modd, gyda'n gilydd, i ni arwain ac annog y disgyblion i dyfu'n oedolion ifanc, boneddigaid ac aeddfed, gan osod y sail addysgol orau posib ar eu cyfer.

Rydym yn ffodus iawn o gefnogaeth y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae eu gwaith yn allweddol i'r ysgol a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu gwaith yn cynnal gweithgareddau o bob math sydd, nid yn unig yn cynnig cyfleoedd i gymdeithasu, ond hefyd yn codi arian sylweddol ar gyfer addysg y disgyblion.

Yn fy mlwddyn olaf fel Cadeirydd ac fel aelod o'r corff llywodraethol hoffem ddiolch hefyd i'm cydlywodraethwyr am eu cyfraniad amrhisiadwy i fywyd yr ysgol. Diolch am eu ffyddlondeb i'r cyfarfodydd a'u hymweliadau mynych i'r ysgol. Mae'n rôl allweddol ym myd addysg heddiw.

Yn olaf, diolch i'r Pennaeth am lywio'r ysgol trwy flwyddyn arall o addysg odidog, a hynny o dan amgylchiadau digon anodd ar adegau, gyda newidiadau yn y sector addysg. Diolch hefyd i'r Uwch Dîm Arwain am eu cefnogaeth a'u harweiniad cadarn a phwrpasol.

Edrychwn ymlaen at barhau ac adeiladu eto i'r dyfodol ar y seiliau cadarn a osodir yn barhaus gan Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Diolch am eich amser.

Yn gywir

***Y Parchg Beti Wyn James BD
Cadeirydd y Corff Llywodraethol***

Adroddiad Y Pennaeth

Dyma flwyddyn academaidd lwyddiannus eleni eto. Mae canlyniadau arholiadau cryf iawn wedi ein gweld yn cyrraedd y brig o ran ysgolion y Sir, y teulu a Chymru. Bu'n flwyddyn arbennig o heriol gyda'r holl newidiadau i'r arholiadau TGAU ond drwy'r cyfan fe welwyd gwelliant ymhob un o'r dangosyddion perfformiad. Hoffwn ddiolch yn arbennig i ddisgyblion, rhieni a staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad. Mae'r athrawon a'r myfyrwyr wedi parhau i weithio'n galed er mwyn cynnal y safonau uchel a bennwyd yn Ysgol Bro Myrddin dros y ddegawd ddiwethaf. Rydym yn un o 'ysgolion arloesi' newydd Cymru o dan gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae llawer o gynlluniau newydd wedi eu cyflwyno. Bellach mae gwersi Dyniaethau ar gyfer blwyddyn 7, gwersi Iechyd a Lles arbennig i flynyddoedd 7 ac 8 a pharatoadau ar y gweill i ddysgu gwersi Addysg Ariannol a gwersi Cymorth Cyntaf. Rydym bellach wedi ennill y faner Masnach Deg ac yn parhau gyda chynlluniau newydd arloesol yn y maes hwnnw. Rydym hefyd wedi ein hachredu fel ysgol Addysg Ariannol. Rydym bellach yn rhan o bartneriaeth yr Athrofa a phrifysgol Aberystwyth o ran hyfforddi athrawon newydd.

Roedd hi'n flwyddyn arbennig iawn i ni hefyd gyda'r ysgol yn dathlu 40 mlynedd ers agor yr adeilad nôl ar safle'r hen ysgol yn y dref. Cafwyd dathlu arbennig gyda chyngerdd mawreddog o gorau'r ysgol, Rhys Meirion a Heledd Cynwal yn Theatr y Lyric a recordiwyd CD hefyd i gofio'r achlysur. Bu llawer o lwyddiannau hefyd a gofnodwyd ar wefan yr ysgol ac yn ein papurau lleol a thrwy Twitter, Facebook ac Instagram. Byddwch hefyd yn gweld rhestr o lwyddiannau a digwyddiadau fel rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn falch o allu adrodd ar ystod eang o gyflawniadau a sicrhawyd gan ein disgyblion a'n staff talentog.

Ein nod yn flynyddol yw cynnal a chodi safonau uchel yr ysgol gan gynnig dewis o gwricwlwm eang a phrofiadau allgyrsiol helaeth. I sicrhau hyn mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn agored ac yn onest am bob agwedd ar wella'r ysgol ac yn ein barn ni, mae barn disgyblion a rhieni yn rhan annatod o hynny. Rydym yn datblygu Llais y Disgybl ymhob agwedd o fywyd ysgol ac yn gweithredu ar y canlyniadau. Rydym yn cynllunio i gryfhau llais y Cyngor Ysgol trwy wella ein cynghorau blwyddyn gan ein bod yn awyddus i sicrhau ein bod yn ymwybodol o farn pawb sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol. Gofynnwn i chi, felly, i ddefnyddio'r holiadur a ddsberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad.

Mae cyfathrebu'n allweddol i ni ac rydym yn diweddarau ein gwefan yn ddyddiol i sicrhau defnyddioldeb. Yn sicr mae ein gwefan newydd yn fwy hylaw ac yn rhoi holl fanylion diweddar yr ysgol. Mae gennym hefyd ap sy'n bosibl ei defnyddio ar unrhyw ffôn glyfar. Mae ein taith ddigidol yn datblygu ac rydym yn edrych ymlaen ar gyfer cydweithio gyda arweinwyr digidol o blith y disgyblion yn y flwyddyn academaidd nesaf.

I gloi'r adroddiad hoffem ddiolch yn arbennig i'r Llywodraethwyr sy'n rhoi yn ddiflino o'u hamser i fynychu pwyllgorau amrywiol yn rheolaidd er mwyn trafod polisiau a gweithgareddau'r ysgol. Diolch hefyd i'r holl staff ac i chithau'r rhieni.

Dr Llinos Jones
Pennaeth

Cynnydd ar argymhellion Estyn yn Adroddiad Arolygu 2015

A1. Codi safonau cyflawniad y bechgyn

Mae codi safonau cyflawniad y bechgyn yn un o flaenoriaethau ein Cynllun Datblygu Ysgol ers 2015. Trwyddi draw, mae'r cynnydd ym mherfformiad y bechgyn wedi bod yn dda iawn yn y ddau gyfnod allweddol yn 2018/2019, gan gynnwys pob un o'r dangosyddion perfformiad yn CA4. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi lleihau yn sylweddol yn y mwyafrif o'r dangosyddion.

A2. Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol a rhannu'r arferion gorau

Mae Cynllun Datblygu'r ysgol ers 2015 yn blaenoriaethu'r argymhelliad hwn ac eisoes mae cynlluniau manwl ar y gweill. Mae gwaith y Gweithgor Addysgu a Dysgu wedi datblygu'n aruthrol ac o ganlyniad gwelwyd cynnydd clir yn ansawdd yr addysgu.

A3. Datblygu'r defnydd a dealltwriaeth o ddata ymysg rheolwyr a llywodraethwyr

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a gosodwyd targedau pendant. Crëwyd cyfres o ddogfennau data pwrpasol er mwyn gwella ymwybyddiaeth athrawon, rheolwyr canol a llywodraethwyr parthed data perfformiad yr ysgol. Yn ogystal â'r cymariaethau arferol – teulu data'r llywodraeth, grŵp meincnodi prydau ysgol am ddim (PYD) a chyfartaledd yr ALL a Chymru – mae'r dadansoddiadau yn cynnwys cymharu perfformiad yr ysgol (dros gyfnod o bedair blynedd) yn erbyn ysgolion gyda'r canrannau PYD isaf. Maent, hefyd, yn tynnu sylw at safle'r ysgol mewn ystod o ddangosyddion ac mewn ystod eang o ffyrdd, gan gynnwys Llinell Atchwel ERW a Llywodraeth Cymru. Darparwyd hyfforddiant mewnol parhaol ar gyfer athrawon, rheolwyr canol a llywodraethwyr ac o ganlyniad, mae ymwybyddiaeth rheolwyr a llywodraethwyr yr ysgol o ddata perfformiad ysgolion yn gyffredinol, a sefyllfa'r ysgol yn benodol, wedi gwella'n sylweddol. Ers 2016 mae hynny yn cynnwys ymwybyddiaeth Penaethiaid adrannau o bwysigrwydd canlyniadau lefel UG/Uwch a thrwy hynny, felly, ein defnydd o wybodaeth data ALPS.

A4. Miniogi'r cysylltiad rhwng prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a ffurfiwyd Cynllun Datblygu Ysgol a Chynllun Datblygu Adran newydd sy'n gosod seiliau cadarn i'w thargedau. Mae'r targedau hyn hefyd yn cael eu hamlygu yn hunanarfarniad yr ysgol ac mae cyswllt pendant iawn rhwng y CDY a'r hunanarfarniad sydd hefyd ar ei newydd wedd.

Aelodau'r Corff Llywodraethol 2018-19

Cadeirydd: Parechedig Beti Wyn James

Is-gadeirydd: Mrs Anne Loughran

Clerc: Miss Siân Thomas, Clerc y Llywodraethwyr, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, swyddfa@bromyrdin.org

Mae 20 o aelodau ar y Corff Llywodraethol:

Pennaeth

6 Rhiant Llywodraethwr

5 Cynrychiolydd yr ALL

2 Gynrychiolydd Athrawon

1 Cynrychiolydd Staff

5 Cynrychiolydd Cyfetholedig sy'n aelodau cymunedol

Rhieni Llywodraethwyr (cyfnod yn dod i ben)

Mr Nigel Cooke (04.10.19)
 Mr Mydrian Harries (09.11.20)
 Mrs Sian Davies (09.11.20)
 Mrs Iola Wyn (04.12.20)
 Ms Catrin James (20.11.21)
 Mrs Nerys Defis (07.10.22)

Llywodraethwyr Cymunedol (cyfnod yn dod i ben)

Mr Elfed Davies (18.01.21)
 Mrs Anne Loughran (18.01.21)
 Mrs Luned Thomas (29.03.21)
 Parchedig Beti Wyn James (29.03.21)
 Mrs Angharad Jones-Leefe (25.03.22)

Cynrychiolwyr Athrawon (cyfnod yn dod i ben)

Mr Aled Williams (31.08.21)
 Mr Steffan Davies (01.09.23)

Cynrychiolwr Staff (cyfnod yn dod i ben)

Mrs Lonwen Bowen (26.05.23)

Llywodraethwyr yr All (cyfnod yn dod i ben)

Parchedig Tom Defis (28.01.23)
 Cynghorydd Cefin Campbell (28.01.23)
 Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths (25.09.20)
 Cynghorydd Mair Stephens (25.09.20)
 Mr Arwel Lloyd (09.04.21)

Adroddiad ar flaenoriaethau 2018-19

Blaenoriaeth strategol YBM	Camau gweithredu yn y Cynllun Datblygu Ysgol
Codi safonau (gyda ffocws arbennig ar gyflawniad y bechgyn)	<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio i agwedd bechgyn at bynciau amrywiol a phrofiad ysgol yn CA4 • Sicrhau cwricwlwm addas ar gyfer y bechgyn a'r merched trwy ychwanegu cyrsiau amrywiol i'r fwydlen gwricwlaidd • Datblygu ein systemau tracio a monitro • Adrannau i ymateb i'r flaenoriaeth trwy eu CDA a Chyfarfodydd monitro • Codi safonau adrannau unigol sydd wedi eu hadnabod yn yr hunanarfarniadau adrannol ac ymweliad Cefnogi ERW 1. • Codi safonau'r 6ed dosbarth trwy gynlluniau amrywiol • Creu cynllun datblygu newydd ar gyfer yr Adran Anghenion Dysgu ychwanegol
Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu	<ul style="list-style-type: none"> • Y gweithgor Addysgu a Dysgu i barhau i ddatblygu addysgeg o fewn yr ysgol • Ymchwilio ar adrodd ar ddulliau asesu newydd • Sicrhau disgybliau uchel o ddisgyblion ar draws gwersi a darparu cyfleoedd i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog • Datblygu strategaethau gwahaniaethu ar draws gwersi gallu cymysg • Rhannu arfer dda o ran cwestiynu effeithiol • Datblygu triawdau trawsbynciol yn bellach • Datblygu y model Dysgu ac Addysgu ysgol gyfan a throsglwyddo'r model i'r cynradd, rhieni a llywodraethwyr • Rhannu arferion da o ran addysgeg i weddill staff yr ysgol • Hunanarfarnu adrannau gan ddilyn y calendr Hunanarfarnu • Creu cynllun gweithredu yn dilyn hunanarfarniad adrannol CA3 2017-18
Ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r ysgol fel ysgol arloesol o ran y cwricwlwm trwy gydweithio gyda LICC ac ERW ar gynlluniau moderneiddio • Sicrhau DPP effeithiol i bob aelod o staff o fewn yr ysgol • Parhau ar y daith ddigidol • Datlybu capasiti arweinyddiaeth • Datblygu Cymreictod yr ysgol
Datblygu amgylchedd gynhaliol yr ysgol	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio gyda'r Sir i wella diogelwch y safle • Datblygu amgylchedd yr ysgol • Ymateb i broblemau cynyddol iechyd a lles emosiynol • Datblygu llais y disgybl a'r rhieni

Trefn y dydd ym Mro Myrddin

Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwrs y dydd dros gyfnod o ddeg diwrnod. Isod gweler amseroedd y sesiynau.

8.55-9.05	Cofrestru		10.20-10.35	Egwyl		12.35-1.35	Cinio
9.05-9.20	Gwasanaeth		10.35-11.35	Gwers 2		1.35-2.35	Gwers 4
9.20-10.20	Gwers 1		11.35-12.35	Gwers 3		2.35-3.35	Gwers 5

Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2019-20

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd
		Dechrau	Diwedd	
Hydref 2019	3 Medi	28 Hydref	1 Tachwedd	20 Rhagfyr
Gwanwyn 2020	6 Ionawr	17 Chwefror	21 Chwefror	3 Ebrill
Haf 2020	21 Ebrill	25 Mai	29 Mai	20 Gorffennaf

Dyddiau HMS Penodol – Dydd Llun Medi 2, Dydd Llun Ebrill 20
Dyddiau HMS ar ddisgresiwn yr ysgol – Dydd Gwener Hydref 25; Dydd Llun, Rhagfyr 9; Dydd Llun, Ionawr 6, Dydd Llun, Gorffennaf 20.

Penodiadau staff newydd ar gyfer Medi 2018:

Mrs Sian Taylor – Athrawes rhan amser Busnes
Mrs Melanie Rees – Athrawes rhan amser Busnes
Miss Gwenno Thomas – Cynorthwydd Addysgu
Miss Sioned Jones – Cynorthwydd Addysgu

Cysylltiadau â'r gymuned

Defnyddir yr ysgol yn rheolaidd gan glybiau a chymdeithasau allanol. Rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r Urdd, ein swyddog 5x60 a'n swyddog ieuencid er mwyn darparu rhaglenni darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol. Mae'n disgyblion yn cyfrannu cryn dipyn yn y gymuned trwy gynnal nosweithiau arbennig a chynorthwyo yma a thraw.

Mae gennym hefyd gysylltiadau agos gyda'n Heddwas Cyswllt Ysgol, PC Cath Williams. Mae hi wedi ein cefnogi yn dda iawn yn ein rhaglen ABCh ac wedi cydweithio'n agos iawn gyda'n Penaethiaid Blwyddyn a'r Uwch Dîm Arwain. Mae ei chyngor parod a'i gwaith wedi bod yn werthfawr iawn i ni. Yn flynyddol daw lluo o siaradwyr gwadd i'r ysgol i gynnig cymorth gan gynnwys cynrychiolwyr o'r banciau lleol, busnesau lleol a cholegau.

Mae ein pwyllgor dyngarol yn gweithio'n galed yn flynyddol i godi symiau sylweddol o arian i achosion dyngarol lleol a chenedlaethol.

Adroddiad blynyddol – Cyllid

Mae gan y Llywodraethwyr is-bwyllgor Cyllid ac Adeiladau sy'n cyfarfod unwaith y tymor i drafod y pynciau penodol hyn. Yn y flwyddyn 2018-19 llwyddodd yr ysgol unwaith eto i orffen y flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2019-20 yn fwy gofidus a byddwn yn rhagweld diffyg am y tro cyntaf.

Datganiad Ariannol yr ysgol 2018/19

Gwariant		Cyllideb	Gwirioneddol
		Cyflogau	3,393,138

	Adeiladau	371,997	375,842
	Cyflenwadau a Gwasanaethau	440,020	426,183
		4,205,156	4,169,925
Incwm		Cyllideb	Gwirioneddol
	Derbynebaw Cwsmeriaid	323,010	254,027
	Grantiau'r Llywodraeth	3,867,698	3,893,713
	Grantiau eraill	14,548	55,934
		4,205,256	4,203,673
Gwarged / Diffyg		-100	-33,748

Perfformiad Disgyblion

Fel y nodwyd, gwelwyd canlyniadau arbennig o dda gan yr ysgol eleni eto.

	2016	2017	2018	2019
L2 Cymraeg	83%	84.1%	85.2%	87.2%
L2 Saesneg	83%	76.6%	69.1%	81%
L2 Mathemateg	86%	80.5%	77.9	85.8%
L2 Gwyddoniaeth	82%	93.8%	77.2	82.8%
L1	99%	99.2%	100	98.5%
L2	88%	79.7%	81.2	86.6%
L2+	82%	72.7%	75.2	84.3%
DPC	80%	73.4%	72.5	72.5
Pwyntiau (cap 9)		390	405.8	410.8
5 A* i A				35.8%
Bagloriaeth		64.8%	85.2%	91.8%
Rhifedd		44.4	46	46.1
Llythrennedd		45.8	46.3	46.2
Gwyddoniaeth		44.3	44.6	43.6

Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol Uwchradd					
Canran y disgyblion 15 oed a:					
	Gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	Enillodd drothwy Lefel 1	Enillodd drothwy Lefel 2 Cynwysedig	Sgôr bwyntiau gyfartalog 9 fesul disgybl wedi capio	Sgôr 5 A* i A
Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019					
Ysgol 2018/19	100%	98.5%	84.3%	411	35.8%
Ardal ALL 2018/19	100%	94.5%	58.5%	367	19.7%
Cymru 2018/19	99%	92.7%	53.8%	353	18.1%

	Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019:				
Ysgol 2018/19	100%	97.3%	81.3%	399	33%
Ardal ALL 2018/19	100%	94.2%	54.7%	356	15.5%
Cymru 2018/19	99%	90.9%	48.9%	336	14%

	Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019:				
Ysgol 2018/19	100%	100%	88.1%	426	39%
Ardal ALL 2018/19	100%	94.9%	62.5%	378	24.1%
Cymru 2018/19	99%	94.6%	59%	365	22.5%

1. Gallwch gael manylion am gymwysterau cymeradwy, sgôr pwyntiau a chyfraniad at drothwyon, yng Nghronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn <http://www.daqw.org.uk>
2. Gallwch gael gwybodaeth am ba feysydd llafur a gynhwysir ym mhob maes pwnc yn Nodiadau Canllaw.
3. Cyfrifir sgorau pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'u capio drwy ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau.
4. Cymhwyster Lefel Mynediad.
5. Ar gyfer SSSP terfynol caiff y diffiniad hwn ei gyfnewid â chanran y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg heb unrhyw gymwysterau fel y diffinnir o dan y Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol EDU/002.
6. Defnyddir ar gyfer pob tabl meincnodi Prydau Ysgol am Ddim.

Cyrchfannau disgyblion

Disgyblion	Bl 11		Bl 12		Bl 13	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
	135		96		79	
Parhau mewn addysg llawn amser – yn yr ysgol hon	91	67%	95	99%		
Parhau mewn addysg llawn amser – mewn ysgol arall	6	4%				
Parhau mewn addysg llawn amser – coleg	32	24%	1	1%	9	11%
Parhau mewn addysg llawn amser – cwrs addysg Uwch					59	75%
Blwyddyn allan					7	9%
Parhau mewn addysg rhan amser						
Hyfforddiant ieuencid gan gynnwys prentisiaeth	3	2%				
Di-waith ac wedi'i gofrestru â Gyrfa Cymru						
Di-waith a heb ei gofrestru â Gyrfa Cymru						
Methu â dechrau Cyflogaeth, Addysg Uwch yn sgil salwch						
Wedi gadael yr ardal	2	2%				
Ddim yn ymateb i gamau dilynol ac felly ddim yn gwybod						
Swydd	1	1%			4	5%

Presenoldeb

Yn flynyddol mae canran presenoldeb Ysgol Bro Myrddin yn uchel iawn.

Presenoldeb disgyblion	2016/2017	2017/2018	2017/2018
% Absenoldebau a awdurdodwyd	4.3%	4%	4.7%
% Absenoldebau heb awdurdod	0.2%	0.2%	0.2%
% Presenoldeb	95.5%	95.8%	95.2%

Targedau'r Corff Llywodraethol o ran presenoldeb	2017/2018	2018/2019	2019/2020
% Presenoldeb	96.1%	96.2%	96.3%

Cyfleusterau Toiled

Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy lenwi holiadur a thrwy waith y Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn. Rydym wedi gweithredu ar ganlyniadau'r holiadur trwy gyflogi glanhawraig ar safle yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar lanhau'r toiledau.

Nodiadau ar Ysgolion Iach

Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth y gwasanaeth Arlwyo i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Bioleg ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle. Rydym bellach yn anelu at gyrraedd Cam 5 Ysgolion Iach.

Disgyblaeth

Rhaid wrth reolau ysgol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Fe'u seilir ar y syniadau canolog o hunan barch, parch at eraill, a synnwyr cyffredin. Trafodir y rheolau yn y gwersi tiwtorial a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio. Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth trwy weithredu system glir o ddisgyblu disgyblion nad ydynt yn cydymffurfio. Yr athro pwnc sydd yn delio â'r disgybl yn gyntaf ac os nad yw hyn yn adfer y sefyllfa mae'r mater yn cael ei drafod o fewn yr Adran. Os oes angen delio ymhellach gyda'r disgybl fe'i cyfeirir at y Pennaeth Blwyddyn i gynnal trafodaethau pellach cyn trafod ataliad awr ginio. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson ac yn cael ei osod mewn ataliad awr ginio mwy na thair gwaith yna hysbysir y rhieni y cedwir disgybl mewn ataliad ar ôl ysgol. Gellir atal disgybl rhag dod i'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithredir polisi hybu ymddygiad cadarnhaol yn yr ysgol ac oherwydd hynny, prin iawn yw'r camymddwyn o fewn a thu allan i furiau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion yn ymwneud â bwllian, ac yn ymateb yn syth os bydd problem o'r fath yn codi.

Iechyd a Diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth. Mae ffensys diogelu newydd o gwmpas yr ysgol ers Medi 2018 sy'n sicrhau diogelwch y safle.

Trefniadau arbennig o safbwynt hygyrchedd i ddisgyblion, staff a rhieni gydag anableddau

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau nad yw disgyblion (neu rywun arall sy'n rhanddeiliad yr ysgol) ag anabledau yn cael eu trafod yn llai ffafriol nag eraill.

Prosbectws yr ysgol

Caiff Prosbectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill. Mae copïau ar gael ar wefan yr ysgol neu dros yr e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.

Cyfrwng Addysgu a Pholisi Iaith

Addysgir ac asesir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Myrddin a'r cyfrwng addysgu yma, sef y Gymraeg, yw'r norm, wrth reswm, i fwyafrif llethol y disgyblion sy'n dewis Bro Myrddin fel ysgol uwchradd. Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 7, 8, 9 a 10 yn astudio pob pwnc, ac eithrio'r Saesneg, trwy gyfrwng y Gymraeg. O ran Gwyddoniaeth ym mlwyddyn 11 i 13 mae dewis iaith yn bodoli ond gyda sefydlu'r polisi iaith presennol yn flynyddol bellach bydd hyn yn newid gyda'r blwyddyn 7, 8, 9 a 10 presennol yn parhau gyda'i haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob disgybl yn CA3, CA4 a CA5 yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg yn CA3 darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a TGCh cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion addasu i gyd-destun gwyddoniaeth a mathemateg cyfrwng Saesneg wedi gadael ysgol.

Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academiaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Anogir disgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur. Mae'r ysgol wedi gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gâr i symud yr ysgol ar hyd y continwwm ieithyddol. Canlyniad hynny yw bod yr ysgol ers Medi 2016 wedi newid categori iaith o 2A i CC. Golyga hynny, bod pob pwnc oni bai am y Saesneg yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Polisiau

Mabwysiadwyd un polisi newydd gan y Corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn sef y Polisi Cyflogau Athrawon 2018 a diweddarwyd nifer o bolisiau eraill.

Adroddiad Anghenion Addysgol Arbennig 2018-19

Ein nod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw addysgu disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd cyn belled ag y bydd hynny'n ymarferol. Er i blant dderbyn cwricwlwm gwahaniaethol, fe fydd yna adegau pan fydd disgyblion yn cael eu tynnu allan o ddisbarthiadau dros dro, er mwyn canolbwyntio ar rai agweddau allweddol o'r gwaith megis sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Gwneir hyn ar sail profion safonol ac adroddiadau a dderbynnir oddi wrth swyddogion yr awdurdod addysg a phenaethiaid yr ysgolion cynradd ac ar ôl trafod gyda rhieni unigol.

Mr Dyfed James, Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol sydd yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig a threfnu gwaith y staff cynorthwyol.

Adolygir y datganiadau yn flynyddol, mewn cyfarfod a drefnir gyda'r rhieni unigol a'r gwasanaethau cynnal sirol.

Mrs Anne Loughran sydd wedi ei henwi fel llywodraethwr cyswllt i'r adran. Ceir 79 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA wedi eu dosbarthu fel a ganlyn.

Blwyddyn	Datganiadau	Gweithredu yn yr ysgol a mwy	Gweithredu yn yr ysgol
7	1	7	12
8	3	9	11
9	1	1	10
10	1	4	7
11	3		4
12	1	1	1
13		1	1
Cyfanswm	10	23	46

Crëwyd proffil ar bob disgybl ar y gofrestr AAA sef y CCU (Cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn). Dengys y CCU farn y disgybl unigol, y ffactorau sy'n effeithio ar eu dysgu mewn gwersi, canlyniadau unrhyw brofion safonedig a thargedau athrawon.

Bellach derbynna nifer fawr o ddisgyblion sydd ar y Gofrestr AAA drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol. Cyflwynwyd darllenydd cyfrifiadur i ddisgyblion sydd ar hawl i gael darllenydd. Galluoga hyn y disgyblion sy'n sefyll Cymraeg neu Saesneg iaith i glywed y testun yn cael ei ddarllen yn uchel. Felly, mae'r disgyblion sydd â sgiliau darllen gwan ond sgiliau darllen a deall da yn gallu cael mynediad i bapurau iaith Cymraeg a Saesneg am y tro cyntaf.

Cynhelir nifer o weithdai arbenigol gan yr Adran gan gynnwys gweithdy llawysgrifen; gweithdy Fresh Start; gweithdy TT RockStars; gweithdy Literacy Toolbox a gweithdy Llythrennau a Synau.

Lles disgyblion

Mae gennym dîm o bobl yn gweithio er mwyn lles y disgyblion. Mae pum aelod o staff wedi eu hyfforddi fel swyddogion amddiffyn plant – Dr Llinos Jones, y pennaeth; Mr Euryn Madoc Jones, dirprwy bennaeth; Miss Zelda Williams, Mr Jonathan Thomas a Mrs Rhian Carruthers, penaethiaid cynorthwyol. Mae'r penaethiaid blwyddyn yn chwarae rôl holl bwysig, felly hefyd y swyddog ieuencid, swyddog presenoldeb, iechyd a lles, nyrs iechyd yr ysgol a chwnselyddion. Gwelwyd 55 o ddisgyblion gan gwnselyddion yr ysgol Mrs Netta Thomas a Miss Alex Davies eleni. Mae'r cynllun Mentora Cyfoedion, sef cynllun i hyfforddi disgyblion y chweched dosbarth i weithio gyda phlant bregus yn mynd o nerth i nerth.

Chwaraeon

Mae'r llywodraethwyr o'r farn y gwiredwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol sef:

- Darparu amgylchedd diogel sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol
- Datblygu sgiliau corfforol
- Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cynigir lluo o weithgareddau gan yr adran a'r swyddog 5x60 gan gynnwys rygbi, pêl-droed, athletau, criced, tenis, gymnasteg, cyfeiriannu, badminton, aerobeg, trawsgwlad, pêl-rwyd, dawns greadigol, canwio, rafftio, rownderi, sgïo, gweithgareddau awyr agored, hoci, pêl-faged, rygbi cyffwrdd, pêl-foeli, ymarfer cylched, ymarfer pwysau, dringo, beicio mynydd a mynydda. Yn ychwanegol mae llawer o'r disgyblion yn cwblhau Gwobr Efydd Dug Caeredin yn flynyddol. Mae llwyddiant ein disgyblion ar y caeau chwarae yn yr ysgol ac yn

allgyrsiol yn arbennig gyda sawl unigolyn yn cyrraedd safon genedlaethol. Bellach mae gan yr ysgol gyngor Chwaraeon a etholwyd trwy bleidlais gan y disgyblion. Rôl y cyngor Chwaraeon fydd arwain a chynghori'r UDA ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r maes.

Llwyddiannau

Ymhyfryda'r ysgol hefyd yn llwyddiannau academiaidd ac allgyrsiol ein disgyblion, nid yn unig ar y caeau chwarae ond ar lwyfannau cenedlaethol ac ym myd actio a'r cyfryngau.

Gweithgareddau allgyrsiol

Yn flynyddol cynigir lluo o brofiadau allgyrsiol i'n disgyblion i gyd-fynd gyda'u hastudiaethau academiaidd. Cynhelir teithiau niferus, gweithdai amrywiol, cystadlaethau diddorol, siaradwyr gwadd, cynadledau blynyddol a chyfleoedd o bob math.

Pwyllgor dyngarol


Mae gennym bwyllgor dyngarol gweithgar o 70 o ddisgyblion y chweched dosbarth. Eleni casglwyd £2,720 gyfer achosion da amrywiol.

Cyfarfod Rhieni Blynyddol

Ers Mai 2013 mae trefniadau newydd mewn grym o ran cyfarfod blynyddol llawn y llywodraethwyr / rhieni. Yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethau gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, mae gan rieni'r hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar faterion sy'n destun pryder. Gall rhieni arfer yr hawl hon hyd at dair gwaith yn ystod blwyddyn ysgol, cyn belled mai pwrpas y cyfarfodydd yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion ynghylch aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu. Caiff cyfarfod ei drefnu gyda'r Llywodraethwyr, felly, os bydd 10% neu 30 o'r rhieni yn gofyn yn ysgrifenedig am gael cyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Holiadur i Rieni

A fydddech mor garedig â defnyddio'r holiadur a ddisberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad ac, os yw'n briodol, er mwyn awgrymu syniadau y gallwn eu mabwysiadu er budd yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2018-19, dyma oedd eich ymateb i'r holiadur.



1. Ar y cyfan, rwy'n fodlon ar yr Ysgol
2. Mae fy mhlentyn yn hapus yn yr ysgol.
3. Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
4. Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
5. Mae safon yr addysgu yn dda.
6. Mae'r staff yn disgwyl i'm plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau.
7. Mae'r gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei gael yn yr ysgol.
8. Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg ac â pharch.
9. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
10. Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i fod yn iach a chymryd ymarfer corff yn rheolaidd.
11. Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
12. Mae'r ysgol yn gwrandao ar lais fy mhlentyn.
13. Mae fy mhlentyn yn derbyn cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
14. Rwy'n cael digon o wybodaeth am gynnydd fy mhlentyn.
15. Rwy'n teimlo'n gyfforddus am fynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.
16. Rwy'n deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
17. Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.
18. Mae fy mhlentyn yn barod i symud ymlaen i'r ysgol neu goleg nesaf neu i mewn i gyflogaeth.
19. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
20. Caiff yr ysgol ei rhedeg yn dda.

Rhestr o deithiau, digwyddiadau a llwyddiannau 2018-19

Medi – Tachwedd 2018

Teithiau

Taith Côr Merched Hŷn Ysgol Gyfun Bro Myrddin i Belfast – ym Mis Mehefin teithiodd y Côr Merched Hŷn i Ysgol Gaelcholaiste Dhoire yn Dungiven, Gogledd Iwerddon, yn dilyn ymweliad gan Diarmaid Ua Bruadair, prifathro'r ysgol â Chaerfyrddin. Bu'r côr yno am bedwar diwrnod yn blasu diwylliant a hanes y wlad. Uchafbwynt y daith oedd cynnal cyngerdd arbennig yn ysgol Wyddelig Gaelcholaiste Dhoire.

Ymweld â Gorsaf dân Caerfyrddin - Bu 5 o ddisgyblion blwyddyn 9 i Orsaf Tân Caerfyrddin fel rhan o gwrs y Prince's Trust ym mis Mehefin. Bu'r disgyblion yn dilyn rhaglen 'Firefighter for the day'. Cafwyd cyfle i ddefnyddio offer, gweithio fel tîm a datrys problemau ymarferol.

Taith i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy - Bore Gwener yr 25ain o Fehefin aeth blwyddyn 7 ar daith Astudiaethau Crefyddol i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy gan eu bod yn astudio defodau derbyn fel rhan o'u hastudiaethau.

Llwyddiant Bro Myrddin yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018 - Bu'n Eisteddfod llwyddiannus dros ben i Ysgol Bro Myrddin eleni eto gyda 34 o eitemau yn teithio i Faes y Sioe ym Mrycheiniog a Maesyfed yn ystod wythnos y Sulgwyn. O'r 34 eitem, bu 17 yn llwyddiannus iawn a chael gwobr gyntaf, ail neu drydydd. Enillwyd 9 gwobr gyntaf sef: Alaw Grug Evans yn Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 10 a dan 19 oed, Ensemble Lleisiol Bro Myrddin Bl. 10 a dan 19 oed, Côr Cerdd Dant Bl. 13 ac iau Bro Myrddin, Grŵp Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed Bro Myrddin, Tîm Siarad Cyhoeddus Bl. 10 a dan 19 oed Bro Myrddin a Chôr S.A.T.B. Bl. 13 ac iau Bro Myrddin. Daeth Ffion Lewis i'r brig gyda'i Dyluniad 2D Bl 7-9, enillodd Daniel Griffiths y gystadleuaeth Farddoniaeth bl 9 a chafodd Anell Dyfri'r wobwr gyntaf am Gyfansoddi Sgript Wreiddiol (bl 10 a dan 19). Enillwyd yr ail wobwr gan Betsan Campbell yn y gystadleuaeth Dawns Werin Unigol i Ferched Bl. 9 ac iau, Alaw Grug ac Elin Fflur yn y ddeuawd Bl. 10 a dan 19 oed a Pharti Cerdd Dant Bro Myrddin Bl. 7, 8 a 9. Cawsom sawl 3ydd gwobr hefyd gan gynnwys Bryn Richards yn chwarae'r drymiau yn yr Unawd Offer Taro Bl. 7-9, Siwan Mair yn yr Unawd Cerdd Dant Bl. 7-9, Celyn a Hanna yn y Ddeuawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed, ein Grŵp Llefaru Bl. 10 a dan 19 oed, a Llew Richards ar y gystadleuaeth Barddoniaeth bl 9.

Cystadleuaeth Barddoni Divine 2018 - Llongyfarchiadau i Elis Roderick a enillodd gystadleuaeth genedlaethol barddoni Divine 2018.

Taith blwyddyn 7 i'r Synagog a'r Gwrdwara - Dydd Iau 11eg o Hydref 2018 aeth blwyddyn 7 ar daith i'r Gwrdwara a'r Synagog yng Nghaerdydd.

Ymweliad blwyddyn 8 a Chadeirlan Tŷ Ddewi - Bore dydd Iau, 27ain o Fedi aeth blwyddyn 8 ar daith Astudiaethau Crefyddol i Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, yn Sir Benfro. Cawsant eu croesawu gan Mrs Janet Ingram ar Canon Leigh Richardson oedd wedi trefnu gwahanol weithgareddau o amgylch y Gadeirlan.

Taith Paris – Bu llawer o ddisgyblion bl 8 ar daith yr ysgol i Baris am dridiau ar ddiwedd Gorffennaf.

Blwyddyn 7 yn Llangrannog – treuliodd tridiau yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog gan ddisgyblion blwyddyn 7 a'u hathrawon ar ddiwedd mis Medi. Dyma gyfle arbennig i'r disgyblion i ddod i adnabod ei gilydd a chydweithio.

Digwyddiadau'r ysgol:

Maes B Bach 2017 - Ar ddiwedd tymor yr Haf trefnwyd diwrnod arbennig gan Bwyllgor Cymreictod yr ysgol (Project4 Cymraeg) a'r Chweched Dosbarth ar gaeau'r ysgol i ddathlu Cymreictod mewn steil. Roedd yr haul yn gwenu a phawb wrth eu boddau gyda'r stondinau amrywiol. Roedd gemau niferus gan y llysoedd ac i ddiddanu'r disgyblion a'r staff i gyd, ymweliad gan yr anfarwol Mr Urdd ei hun. Cafwyd prynhawn hyfryd yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg, yn cymdeithasu a mwynhau.

Diwrnodau pontio bl 6 – Treuliodd ddisgyblion bl 6 ysgolion y dalgylch ddeuddydd ar y 6ed a'r 7fed o Orffennaf yn yr ysgol. Cafwyd cyfle i fod yn rhan o wersi iaith ac addysg ariannol a chyfle i gymdeithasu a chydweithio.

Cyfraniadau – Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd £4,600 i elusennau amrywiol gan y pwyllgor dyngarol. Roedd yr elusennau yn cynnwys Cymorth Cristnogol, Llyfrau Llafar y Deillion, MacMillan, Banc Bwyd Caerfyrddin a Phlant mewn Angen.

Prif swyddogion 2018-2019 - Llongyfarchiadau i Efa Jones a Harri Jones ar gael eu hethol yn brif fachgen a phrif merch. Yn eu cynorthwyo bydd Catrin Lewis, Cadi Evans, Christopher Evans a Iestyn McAvoy.

Aelodau Cyngor Ysgol 2018-2019 - Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd yn aelodau o'r cyngor ysgol 2018-2019. Bl 7 – India Skone a Tomos Lewis, Bl 8 – Mati Morgan a Steffan Huw Davies, Bl 9 – Emma Mackay ac Alex Mote, Bl 10 – Elen Davies a Sion Jones, Bl 11 – Mabli Jones a Cai Phillips, Bl 12 – Emily Williams, Mali Hughes, Mabon Evans a Harry Williams-Potter, Bl 13 – Efa Jones, Ella Parmenter, Holly Cleaton, Harri Jones ac Iestyn McAvoy.

Gweithdy Only Men Aloud – Braf oedd cael croesau Aled Powys Williams ac Aled Owen i'r ysgol ar fore Llun, Medi'r 10fed ar gyfer cynnal gweithdy gyda chriw o fechgyn hŷn yr ysgol. Cawsant gyfle ardderchog i ymarfer eu sgiliau rhythmig.

Ailagor Siop Morrisons Caerfyrddin ar ei newydd wedd - Bu'r Côr Merched Hŷn yn perfformio yn seremoni ailagor Siop Morrisons fore Iau, Medi'r 13eg, gyda rhai o'r merched yn manteisio ar y cyfle i fwynhau brechwast llawn am wyth y bore, a hynny cyn y canu!

Cyfansoddwr Ifanc Dyfed 2018/19 - Cafodd criw Bl 10 – 13 Cerdd gyfle i fynychu gweithdy yn Ysgol Maes y Gwendraeth ddydd Iau, Medi'r 20fed a chlywed perfformiadau gan y grŵp arbrol "Hermes Experiment",

pan y cafwyd cyfuniad diddorol o ensemble oedd yn cynnwys llais, clarinet, telyn a bâs dwbl. Edrychwn ymlaen yn awr at ymweliad y cyfansoddwr preswyl - Lynne Plowman i weithio ymhellach gyda'r disgyblion nôl yn yr ysgol.

Diwrnod Heddwch y Byd – dydd Gwener, Medi'r 21ain - Un o'r digwyddiadau pwysicaf yng nghalendr Tref Caerfyrddin yw codi baner heddwch ar Ddiwrnod Heddwch y Byd. Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae Côr Merched Hŷn yr ysgol wedi cael cyfle i berfformio y tu allan i Neuadd San Pedr adeg y seremoni hon, a braf oedd derbyn y gwahoddiad i ganu yno eleni eto.

Bore Coffi MacMillan - Bob blwyddyn ers chwarter canrif mae Elusen MacMillan yn annog pobol i ymuno ym More Coffi Mwy'r Byd drwy gynnal digwyddiad yn eu lle gwaith. Trefnwyd y Bore Coffi yn yr ysgol ar fore Gwener, Medi 28ain ar gyfer y staff a'r chweched. Roedd y byrddau yn frith o gacennau blasus yn barod ar gyfer y bore. Cafwyd cefnogaeth arbennig i'r ymdrech ac roedd yr ystafell llawn bwrlwm drwy'r amser egwyl estynedig. Gyda thâl mynediad yn cynnwys paned o de neu goffi a chacennau blasus, ynghyd â raffl codwyd y swm anhygoel o £800. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gwasanaeth Diolchgarwch – I gloi hanner tymor yr Hydref cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yr ysgol yng nghwmni y Parchedig Beti Wyn James ar y 23ain o Hydref.

Banc Bwyd Gaerfyrddin – Yn dilyn ein gwasanaeth diolchgarwch, derbyniodd yr ysgol nifer o gyfraniadau tuag at fanc bwyd Caerfyrddin. Dosbarthwyd y cyfraniadau i'r banc bwyd gan ddisgyblion yr ysgol ar fore'r gwasanaeth.

Noson Agored 2018 – Unwaith eto eleni, agorodd Ysgol Bro Myrddin ei drysau i'r cyhoedd ar nos lau y 18fed o Hydref. Roedd bwrlwm a gweithgareddau amrywiol ym mhob adran o amgylch yr ysgol. I agor y noson cafwyd sgwrs bwrrpasol gan y brifathrawes Dr Llinos Jones.

Noson grefftau – Cynhaliwyd noson grefftau gan y Gymdeithas Rien i yn yr ysgol ar Fedi y 27ain. Gwnaethpwyd elw o £669.50 gyda 35 o stondinau amrywiol.

Llwyddiannau

Cynllun Dosbarth Busnes - Llongyfarchiadau i Sara Jones a enillodd cystadleuaeth ar draws ysgolion Sir Gâr am ysgrifennu erthygl ar y gêm rhwng y Sgarlets a'r Dreigiau ar ddiwrnod 'Dydd y Farn.' Noddwyd y gystadleuaeth gan y Principality fel rhan o'r Cynllun Dosbarth Busnes a'i gwobr oedd iPad sy'n cael ei rhoi iddi yn y llun gan James Harper o'r Principality.

Cystadleuaeth Ymddiriedolaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig – Llongyfarchiadau i'r ysgol am ennill y 3ydd wobwr o £700 yng nghystadleuaeth Ymddiriedolaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yr wythnos diwethaf. Gwobrwywyd yr ysgol mewn seremoni arbennig a gynhaliwyd yng Nghaerdydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Teitl prosiect yr ysgol oedd 'Gwreiddiau ac Adenydd – datblygu'r Cwricwlwm Cymreig ar draws yr ysgol.' Bu disgyblion CA3 yr ysgol yn datblygu dulliau ac adnoddau arloesol, yn bennaf ym meysydd Hanes, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg a Chymraeg i gefnogi'r Cwricwlwm. Datblygwyd dros 600 o adnoddau ganddynt er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o waith arwyddocaol nifer fawr o Gymry a digwyddiadau enwog y wlad.

Gwobrau arbennig - Yn flynyddol mae CBAC yn gwobrwyo y prosiectau Dylunio a Thechnoleg gorau, mwyaf arloesol. Anrhydedd yw derbyn un enwebiad ac eleni cafodd 11 o ddisgyblion yr ysgol eu dewis. Yn dilyn hyn, dewisiwyd rhestr fer a gwaith y rhestr honno yn cael ei arddangos yn Stadiwm Swalec yng Nghaerdydd. Eleni, llwyddodd tri prosiect i gael eu harddangos gan gael y cyfle i ennill y prosiect gorau ar draws Cymru. Llongyfarchiadau i Owain Gibbin, Christopher Evans a Sam Silverthorne ar gyrraedd yr arddangosfa hon.

Derbyniwyd tystysgrifau am safon rhagorol gwaith y canlynol hefyd: Harri Griffiths, Wendy Owen, Cian Woodward, Rhodri Griffiths, Harri Jones, Sam Reynolds, Rhodri Lewis a Wil Garrard.

Llwyddiant ym myd coginio – Llongyfarchiadau i Millie Hughes-Butterfield o fl 12 sydd wedi cael ei gwobrwyo am y gwaith gorau yn y cwrs Bwyd a Maeth ar draws Prydain gan y ‘British Nutrition Foundation.’ Bydd yn teithio i Lundain i gael ei gwobrwyo cyn bo hir.

Llwyddiannau chwaraeon.

Chwarae dros Gymru – Llongyfarchiadau enfawr i Betsan Thomas o fl 10 a fu’n chwarae hoci i dîm Cymru dan 15 oed yn y Future’s Cup dros yr haf. Betsan enillodd chwaraewraig y twrnament. Llongyfarchiadau iddi hefyd am dderbyn tlws chwaraewraig y flwyddyn yng nghynghrair hoci menywod de Cymru.

Tîm athletau Cymru – Llongyfarchiadau i Iwan Glynn o fl 11 ar ei lwyddiant dros yr haf gyda thîm athletau Cymru. Daeth yn ail yn y ras dan 18 oed ac ef bellach yw’r cyflymaf yn ei oedran yng Nghymru yn y 400 metr. Bellach mae Iwan wedi llwyddo i ennill festiau Cymru mewn trawsgwlad, ar yr heol ac ar y trac.

Llwyddiant yn Wimbledon – Llongyfarchiadau i Daniel Griffiths ar ei lwyddiant yn Wimbledon dros yr haf. Llwyddodd Daniel a’i bartner i ennill cystadleuaeth y dwblau a daeth yn ail agos yng nghystadleuaeth y senglau.

Seiclo – Llongyfarchiadau i Morgan Lloyd o fl 9 ar ennill ras seiclo Brydeinig dan 13 oed yn ddiweddar yn Norwich.

Criced – Llongyfarchiadau i Gruffudd Owen, Bl 7, sydd wedi derbyn gwahoddiad i ymuno ag Academi Iau Clwb Criced Morgannwg yn 2018-19. Fe’i dewiswyd ar sail ei berfformiadau tan gamp yn ystod yr haf dros dîmau Cymru dan 11 a than 12 lle sgoriodd dros fil o rediadau dros ei wlad.

Llongyfarchiadau i Owen Bailey o fl 9 ar ei lwyddiant diweddar gyda thîm criced Cymru. Bellach mae wedi cael ei 50ed cap ac wedi ei ddewis i dîm dan 14 oed ymhob gêm y flwyddyn hon.

Sgio – Llongyfarchiadau i Rhys Owen o fl 9 ar ennill medal efydd ym mhencampwriaeth sgio ysgolion Cymru Hydref y 14eg.

Chwildroi Baton – Llongyfarchiadau i Cerys Davies ar ennill dwy wobwr gyntaf gyda’r tîm a 3ydd, 4ydd a 5ed yn y gystadleuaeth unigol yn Torbay yn ddiweddar.

Gemau mis Medi a Hydref – bu’n gyfnod hynod brysur yn yr ysgol gyda 40 o gemau amrywiol. Llwyddodd y tîmoedd rygbi i ennill 6 gêm, colli 2 ac 1 gêm gyfartal. Enillwyd 7 o gemau gan y tîmoedd pêl-droed a chollwyd un. Enillwyd 11 o gemau gan y tîmoedd pêl-rwyd, collwyd un a chafwyd un gêm gyfartal. Enillwyd 5 o gemau hoci, collwyd 4 a chafwyd un gêm gyfartal.

Marchogaeth – Llongyfarchiadau i dîm marchogaeth yr ysgol ar fynd ymlaen i rownd derfynol cystadleuaeth cenedlaethol Prydain yn Stoneleigh ar yr 8fed a’r 10fed o Awst. Dewisiwyd hwy gan eu bod wedi llwyddo i fod yn y 3 ysgol uchaf ym Mhrydain. Y tîm llwyddiannus oedd Celyn a Taran Yate, Rufus a Rogan Cox, Molly, Deryn a Ioan Cressey-Rodgers a Heidi Lewis.

Tachwedd 2018 – Chwefror 2019

Teithiau

Taith yr Adran Fathemateg – Ar ddydd Mawrth 11eg o Ragfyr, bu nifer o ddisgyblion blwyddyn 10 ar wibdaith i wrando ar ddarlithoedd y “Maths Inspiration” yng Nghaerdydd. Cawsant fore diddorol iawn yn

gwrando ar wahanol gyflwyniadau gan nifer o siaradwyr hwylus a bywiog gan gynnwys Rob Eastaway a Ben Sparks.

Taith sgïo i Awstria – Ar fore Gwener yr 28ain o Ragfyr gadawodd bws dau lawr faes parcio Bro Myrddin ar daith i St Anton, yn Awstria. Roedd 63 o ddisgyblion blynyddoedd 8 a 9 yn gyffrous wrth edrych ymlaen am wythnos o hwyl a sgïo. Roedd rhagolygon y tywydd yn addawol gyda diogon o eira. Ar ôl siwrnai hir cyrhaeddwyd yn saff yn y gwesty.

Taith i Lundain – Ers blynyddoedd bellach, bu'r Adran Gerdd yn trefnu taith i ddisgyblion yr ysgol i'r West End i fwynhau bwrlwm dawnsio a chanu'r theatr. Eleni, ar ddydd Mercher, 30ain o Ionawr, daeth yn amser unwaith eto i oddeutu 150 o ddisgyblion deithio i Lundain i wylïo un o'r sioeau cerdd mwyaf poblogaidd a gyfansoddwyd erioed sef The Lion King.

Y Gadair Wag – Ar brynhawn y 14eg o Chwefror, fe aeth criw Cymraeg bl 12 i'r Egin yng Nghaerfyrddin i wylïo'r sioe farddoniaeth 'Y Gadair Wag.' Sioe amlgyfrwng ydoedd a oedd yn adrodd hanes y bardd Hedd Wyn.

Taith astudiaethau Crefyddol i'r Ganolfan Fwdhaidd yng Nghaerdydd – Dydd Llun y 4ydd o Chwefror fe aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 9 ac 11eg ar daith Astudiaethau Crefyddol i Ganolfan Fwdhaidd yng Nghaerdydd.

Cofio Comin Greenham – Nos Lun yr 11eg o Chwefror fe aeth criw o ddosbarth Cymraeg Blwyddyn 12 i Festri Capel y Tabernacl yng Nghaerfyrddin i wrando ar sgwrs gan ddau aelod o gymdeithas y Cymod Caerfyrddin sef Guto Prys ap Gwynfor a Sian ap Gwynfor.

Digwyddiadau'r ysgol:

Dathlu Deugain Ysgol Bro Myrddin – Pleser o'r mwyaf oedd cael croesawu theatr lawn o rieni, cyn-rieni, disgyblion, cyn-ddisgyblion a ffrindiau ar nos Sadwrn y 1af o Ragfyr i gyd-ddathlu penblwydd yr ysgol yn 40 oed. Mwynhawyd gwledd o ganu yng nghwmni Rhys Meirion a chorau amrywiol yr ysgol. Cyflwynwyd y noson gan y cyn-ddisgybl, Heledd Cynwal a thri o gyn-benaethiaid yr ysgol oedd y llywyddion, Mr Gareth Evans, y pennaeth cyntaf, ei olynydd Mr Eric Jones a'i olynydd yntau Mr Dorian Williams. Pleser oedd gwrando ar sylwadau ac atgofion melys Mr Gareth Evans a siaradodd ar ran y tri cyn-bennaeth. Pleser hefyd oedd cael clywed, am y tro cyntaf, cerdd gomisiwn y dathlu a ysgrifennwyd gan y prifardd a'r cyn athro a rhiant Tudur Dylan ac a gyfansoddwyd gan Mr Eric Jones. Lanswyd CD y dathlu ar y noson hefyd.

Mwynhau barddoniaeth yng nghwmni Eurig – Braf oedd croesawu Eurig Salisbury i'r Adran Gymraeg i annerch dosbarthiadau o flynyddoedd 10 i 13. Cafodd y disgyblion brofiad arbennig wrth wrando ar y bardd yn trafod cerddi megis Walkers Wood a Tre Saith. Camu'n ôl mewn hanes wnaeth y Chweched dosbarth wrth iddynt astudio'r gerdd Gwenllian gan Myrddin ap Dafydd ac un o gerddi cynhara'r iaith Gymraeg, sef Gwaith Argoed Llwyfain gan Taliesin.

Plant mewn angen – Ar ddydd Gwener y 16eg o Dachwedd fe ddathlwyd diwrnod Plant mewn Angen yn yr ysgol. Llwyddwyd i godi swm anhygoel o £800 a phawb yn eu streipiau a'u spotiau. Llwyddwyd hefyd i ychwanegu 850 o 'bawennu llawen' i ymgyrch Plant mewn Angen Aled Hughes, Radio Cymru. Braf hefyd oedd cael croesawu Mr Urdd ei hun i'r gwasanaeth i gyfrannu at yr ymgyrch.

Cynhadledd Pobl Ifanc Cymru – Ar y 13eg o Dachwedd aeth 6 o aelodau'r cyngor ysgol i gynhadledd pobl ifanc Cymru ym Mharc y Sgarlets. Yno cafwyd cyfle i drafod y cwricwlwm newydd a'r agweddau sydd angen eu hystyried er mwyn diogelu lles a datblygiad pobl ifanc Cymru. Yn ystod y gweithdai bu'r disgyblion yn trafod y dirywiad yn lles emosiynol pobl ifanc a thrafodwyd camau gweithredu posibl i'r ysgolion. Derbyniwyd canmolïaeth uchel am ein cynllun mentora o fewn yr ysgol sy'n sicrhau bod clust gan y disgyblion i wrando arnynt.

Gwobr y Principality - Llongyfarchiadau i Robert a Rosalin Day ar dderbyn gwobr cyrhaeddiad y Principality. Eu gwobr oedd 4 tocyn i gêm Cymru yn erbyn Tonga.

Wythnos gwrth-fwlio - Yn ystod yr wythnos arbennig rhwng Tachwedd y 12fed a'r 16eg fe gafodd holl ddisgyblion yr ysgol gyfle i ddylunio poster ar gyfer y coridorau. Yr enillwyr oedd Elan Thomas a Charlie-Jaye a bydd eu gwaith cyn bo hir yn cael eu harddangos o gwmpas yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr.

Pwyllgor Eco - Llongyfarchiadau i'r ysgol am dderbyn ein hail baner werdd bellach yn dilyn gwaith y pwyllgor Eco a holl gymuned yr ysgol. Cyflwynwyd y faner i'r pwyllgor Eco mewn gwasanaeth arbennig ar ddydd Mercher y 21ain o Dachwedd gan Bethan Evans-Phillips, swyddog ysgolion iach y Sir.

Llwyddiant ym myd Celf - Llongyfarchiadau i Ceri Lewis a Catrin Lewis o flwyddyn 8 ac Amity Evans o flwyddyn 9 ar gael eu derbyn ar gynllun Mwy Abl a Dawnus Celf Sir Gâr.

Eisteddfod Ddwl - Llongyfarchiadau i'r ysgol ar ennill yr Eisteddfod Ddwl ddiweddar ar Dachwedd yr 20fed a drefnwyd rhwng ysgolion Strade, Maesygwendraeth a Bro Myrddin.

Cynnau Coeden Nadolig Morrisons - Ar nos Wener y 1af o Ragfyr aeth criw o ferched o flynyddodd 7,8 a 9 i ganu carolau tu allan i siop Morrisons er mwyn dathlu cynnau goleuadau'r goeden. Canwyd amrywiaeth o garolau dan arweiniad Mrs Nia Evans.

Band yr Ysgol yn chwarae yn siop Morrisons - Cafodd deg ar hugain o ddisgyblion pres a chwythbren yr ysgol brofiad pleruser bore Llun olaf y tymor, sef Rhagfyr 17eg yn diddanu siopwyr prysur siop Morrisons.

Ymweld â Chartref yr Henoed, Caeglas, Ffairfach, Llandeilo – Bore Mercher, Rhagfyr 19eg - Mae hi'n arferiad bellach i'r Adran Gerdd ymweld â chartref yr Henoed adeg y Nadolig, ac roedd hi'n hyfryd eleni i fynd a chriw o ddisgyblion Bl 12 a 13 i gyflwyno rhaglen Nadoligaidd i Gartref yr Henoed yng Nghaeglas, Ffairfach, Llandeilo.

Gwasanaeth Diwrnod Olaf y Tymor - Ar ddiwrnod olaf y tymor sef Dydd Gwener y 21ain o Ragfyr, roedd hi'n hyfryd cynnal Gwasanaeth Nadolig yn neuadd yr ysgol. Llywiwyd y Gwasanaeth gan y prif swyddogion: Efa Jones a Harri Jones ac roedd hi'n braf croesawu'r Parch Beti Wyn James i ymuno â ni. Cafwyd amrywiaeth o ddarlenniadau, gweddiâu a charolau. Cafwyd hefyd ddatganiad o ambell eitem a berfformiwyd yng Nghyngerdd Dathlu Deugain yr Ysgol yn Theatr y Lyric. Daeth y gwasanaeth i ben gyda'r ysgol gyfan yn canu "Nadolig Llawen i chi gyd".

Senedd Ieuenctid Cymru - Llongyfarchiadau gwresog i Lois Campbell a Cai Phillips ar gael eu hethol yn aelodau o'r Senedd Ieuenctid. Bu dros 450 o ymgeiswyr ledled Cymru yn cystadlu am 60 sedd. Etholwyd Lois fel aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr a Cai fel aelod dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro. Anrhydedd yn wir yw bod dau ddisgybl o'r ysgol yn aelodau yn y senedd newydd, arloesol hon.

Canolfan Rhagoriaeth mewn Addysg Ariannol - Derbyniodd yr ysgol achrediad "Canolfan Rhagoriaeth mewn Addysg Ariannol" oddi wrth Young Money, sef elusen addysg ariannol mewn cynhadledd ym Birmingham ar y 13 eg o Dachwedd. Nod cyffredinol rhaglen y Ganolfannau Rhagoriaeth yw cefnogi addysg ariannol ymarferol, effeithiol a chynaliadwy i bobl ifanc mewn ysgolion. Ysgol Bro Myrddin yw'r ysgol Uwchradd Gyntaf yng Nghymru i gyflawni'r achrediad.

Ffair Aeaf yn Llanelwedd - Llongyfarchiadau i Gilbert Roberts ar ennill gwobr y pencampwr yng nghystadleuaeth y Tywyswyr Ifanc yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd.

Bugail y Flwyddyn 2018 - Llongyfarchiadau i Sara Brown o flwyddyn 11eg am ennill teitl Bugail y flwyddyn 2018.

Gwobr Addysg Drummond 2018 - Ar 20fed o Dachwedd teithiodd Millie Hughes-Butterfield o flwyddyn 12 gyda'i athrawes Mrs Non Knott i'r Royal College of Physicians yn Llundain i dderbyn y 'British Nutrition Foundation Drummond Education Award 2018'. Cafodd Millie ei chydabod a'i gwobrwyo am y gwaith gorau ym Mhrydain yn y cwrs TGAU Bwyd a Maeth ar ran y bwrdd addysg CBAC. Cyflwynwyd tystysgrif a gwobr ariannol i Millie gan y Dywysoges Frenhinol Anne.

Eisteddfod yr ysgol – Ar ddydd Iau, Chwefror y 15fed cynhaliwyd eisteddfod flynyddol yr ysgol. Eto eleni cafwyd diwrnod llawn hwyl a chystadlu brwd. Enillydd y gadair Gymraeg oedd Lois Campbell o lys Llwydiarth ac enillydd y gadair Saesneg oedd Laurie Thomas hefyd o lys Llwydiarth. Enillwyd y goron Gymraeg gan Briall Dyfri o lys Llwydiarth ac enillwyd y goron Saesneg gan Carina Sidhu o lys Peniarth. Enillwyr cystadleuaeth y côr eleni oedd llys Hengwrt. Enillwyd tlws y dawnsio gwerin gan lys Hergest gyda thlws cystadlaethau'r llwyfan yn cael ei hennill gan lys Llwydiarth a thlws y gwaith cartref gan lys Peniarth. Ond enillwyr y steddod eleni yn y drefn ganlynol oedd Peniarth gyda 1,049 o bwytiau, Llwydiarth gyda 945 o bwytiau, Hergest gyda 883 o bwytiau a Hengwrt gyda 680 o bwytiau. Y ddau feirniad oedd Mr Geraint Hughes a Mrs Siw Hughes.

Disgyblion ar ei ffordd i Rydychen – Llongyfarchiadau i brif ferch yr ysgol, Efa Jones ac i Andrea Chang Jones ar dderbyn lle yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen ar gyfer mis Medi 2019.

Gweithdy Cerdd - Ar ddydd Gwener y 13eg o Ionawr, cafodd disgyblion Blwyddyn 8 weithdy gyda "Bongo Clive". Roedd y bore yn un llawn hwyl wrth i'r disgyblion gael cyfle i gyd- weithio ac arbrofi gyda'i syniadau rhytmig.

Cymdeithas rhieni ac athrawon Bro Myrddin - Dros y misoedd diwethaf bu cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn brysur iawn yn casglu arian. Derbyniwyd sic o £1,000 gan yr ysgol er mwyn prynu meinciau newydd ar gyfer y disgyblion a derbyniwyd sic arall gan y Clwb 500 ar gyfer cronfa'r ysgol. Mae'r holl arian sy'n cael ei gasglu gan y gymdeithas yn cael ei ddefnyddio er lles y plant - diolch am eich cefnogaeth.

Mentoriaid y chweched - Braf oedd cael cydnabod yng ngwasanaeth yr Ysgol yn ddiweddar Fentoriaid y chweched. Ers 2010, mae cynllun mentora cyfoedion ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin wedi bodoli dan arweiniad Mrs Judith Al-Rawazik a Mrs Morwen Hughes. Hyfforddir disgyblion Bl 12 i fod yn fentoriaid ar ddisgyblion iau'r ysgol; mae rôl y mentor yn un pwysig iawn er mwyn sicrhau bod disgyblion iau'r ysgol yn ymgartrefu'n hapus a bod ganddynt ddisgyblion hŷn yn gymorth iddynt os oes angen. Hyfforddwyd 58 disgybl eleni; y nifer fwyaf erioed! Diolch i bob un am eu gwaith gwerthfawr.

Seren y Flwyddyn Criced Cymru - Llongyfarchiadau i Gruffydd Owen o flwyddyn 7 a enillodd wobr Seren y Flwyddyn Criced Cymru am yr ail dro i dîm criced Cymru o dan 11eg oed.

Tryweryn - Braf oedd croesawu Emyr Llewelyn Jones i'r ysgol i siarad gyda disgyblion Blwyddyn 8 am hanes Tryweryn. Siaradodd yn angerddol am ei brofiadau yn ymgyrchu a phrotestio yn erbyn boddi Capel Celyn. Profiad gwerthfawr iawn! Diolchwn iddo am ddod â'r hanes yn fyw i'n disgyblion.

Ymgyrch casglu sbwriel - Ar fore braf y 13eg o Chwefror, aeth gwirfoddolwyr o flwyddyn 7 ac aelodau'r pwyllgor eco ati i gasglu sbwriel oddi ar dir yr ysgol. Mae'r ysgol bellach yn ysgol ddi-blastig; o ganlyniad, felly, hyfryd oedd gweld mae ond ychydig o sbwriel a gasglwyd yn y pendraw gan y disgyblion. Y peth pwysig nawr yw bod pawb yn yr ysgol yn parhau i ddefnyddio poteli aml dro a defnyddio'r biniau cywir ar gyfer eu sbwriel. Diolch i bawb am wirfoddoli!

Cyfraniad ariannol i brynu 'Chromebooks' – Diolch i Mr Robert George o gwmni RG Fencing Ltd, cwmni Castell Howell, Acstro Ltd a Gwasg Gomer am eu cyfraniadau hael tuag at brynu chromebooks i'r ysgol. Byddant o gymorth mawr.

Cyfrannu ar ddiwrnod miwsig Cymru – Ar ddiwrnod Miwsig Cymru aeth aelodau o gorau'r ysgol i rai o gartrefi henoed y dref i gyflwyno copi o gryno ddisg Dathlu Deugain yr ysgol er mwyn i drigolion y cartrefi allu gwranddo ar y gerddoriaeth

Cystadleuaeth F1 - Ar ddydd Mawrth y 19eg o Chwefror cynhaliwyd cystadleuaeth F1 ysgolion yn stadiwm Dinas Caerdydd. Llongyfarchiadau mawr i dimoedd yr ysgol: Gator Racing am ennill gwobr y cyflwyniad gorau; Team Vulcan am ennill gwobr hunaniaeth tîm ac am ddod yn drydydd yn yr holl gystadleuaeth a Sonic Speed am ennill gwobr sêr y dyfodol.

Llwyddiannau chwaraeon.

Timau rygbi – Chwaraewyd 13 o gemau yn ddiweddar gan y timau. Llwyddwyd i ennill 7, colli 5 ac 1 gêm gyfartal.

Timau pêl-rwyd – Chwaraewyd cyfanswm o 33 o gemau pêl-rwyd gan y timau. Llwyddwyd i ennill 26, colli 6 a 1 gêm gyfartal.

Timau hoci – Chwaraewyd cyfanswm o 24 o gemau. Enillwyd 15, collwyd 7 a 2 gêm gyfartal. Bellach mae y tîm dan 14 a than 18 yn bencampwr y Sir a'r tîm dan 18 yn bencampwr Dyfed.

Trawsgwlad - Llongyfarchiadau i'r canlynol am gyrraedd pencampwriaethau trawsgwlad Cymru - Cerys Davies, Eva Edwards, Daisy Thompson, Erin Morgan, Liam Edwards, Dafydd Jones, Frank Morgan, Ioan Cressey Rogers, Ifan Bowen

Pêl-rwyd - Llongyfarchiadau i Efa Jones a Cadi Evans o fl 13 am gael eu dewis i garfan pêl-rwyd Cymru dan 21 oed a Lucy Davies ac Awen Gower o fl 10 am gael eu dewis i garfan dan 17.

Pêl-droed – chwaraewyd gemau cwpan ysgolion Cymru gan yr holl dimoedd a bellach mae tîm bechgyn blwyddyn 7 a thîm merched bl 9 a 10 wedi cyrraedd y gemau go-gynderfynol.

Mawrth 2019 – Gorffennaf 2019

Teithiau

Taith Astudiaethau Crefyddol i'r Ganolfan Islamaidd – Ar yr 8fed o Ebrill 2019, cafodd disgyblion blwyddyn 8 Ysgol Bro Myrddin y cyfle i ymweld â'r Ganolfan Islamaidd yng Nghaerfyrddin.

Digwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol:

Llwyddiant eisteddfodol – Llongyfarchiadau i Steffan Jones o flwyddyn 12 a ddaeth yn ail yn Nhlws Llennyddiaeth Eisteddfod Llangadog a Lois Campbell a ddaeth yn 3ydd.

Ysgrifennwr medrus – Llongyfarchiadau i Evan Burke o flwyddyn 12 am ddod yn ail yng nghystadleuaeth genedlaethol Cadw Cymru'r Daclus gyda'i erthygl newyddiadurol ar ddiogelu'r amgylchedd.

Gwobrau arloesodd Dylunio a Thechnoleg – llongyfarchiadau i'r Adran Ddylunio a Thechnoleg ac i'r disgyblion sydd a'i gwaith wedi ei enwebu ar gyfer gwobrau arloesoedd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Fe enwebwyd gwaith Harri Jones, Iestyn McAvoy a Cian Woodward o fl 13; gwaith Harri Griffiths ac Alisha Davies o fl 12 a gwaith Laurie Thomas, Bedwyr Thomas a Steffan Howells o fl 11.

Noson Wobrwyo 2019 – Cafwyd noson i'w chofio yng nghwmni Mr Steffan Griffiths (cyn-ddisgybl a chyflwynydd y tywydd ar S4C) ar nos lau yr 11eg o Ebrill yn dathlu llwyddiannau disgyblion academiaidd 2018. Agorwyd y noson gan brif fachgen a phrif ferch yr ysgol sef Harri ac Efa Jones, cyn cael tamaid o adloniant gan gorau hŷn yr ysgol. Wedi anerchiad gan y Pennaeth Dr Llinos Jones bu Steffan Griffiths yn ysbrydoli'r gynulleidfa gyda'i neges bwrpasol am y fraint o fod yn Gymro.

Enillwyr y gwobrau eleni oedd: Gwobr Ysgol Bro Myrddin: Mared Owen;
Gwobr Goffa Beti Hughes: Garmon Dyfri;
Tlws Gareth Evans (bl.13) (cyfraniad i fywyd diwylliannol yr ysgol): Sian Elin Rees; Tlws Gareth Evans (bl.11/13) (ymdrech gyson ym mlwyddyn 11 neu 13): Wendy Owen;
Gwobr St Peter's Players: Hannah Richards;
Tlws Coffa Megan a Myfanwy: Ailsa Fearn;
Tlws Coffa Rhian Denby Jones: Ffion Wyn Jones / Alaw Evans;
Tlws yr Adran Fusnes: Mari Wyn Thomas;
Tlws Andrew Rees: Daniel O'Callaghan;
Tlws yr Adran Gerdd: Alaw Evans;
Tlws Hugh Griffiths: Ffion Wyn Jones;
Tlws Coffa Margaret Morris: Jessica Thomas;
Tlws Addysg Gorfforol: Eva Edwards;
Tlws Elin Ruth Jenkins: Efa Jones / Cadi Evans; Tlws Non Jenkins: Josh Jones;
Tlws Peter Hughes Griffiths: Lewis Rocke;
Tlws Emlyn Schiavone: Sam Icke;
Tlws Rheon ac Eiliw James: Iwan Glynn;
Gwobr Ieithoedd Modern (bl.11/13) (Perfformiad gorau mewn ITM): Gwen Page Gibby;
Gwobr Disgybl y Disgyblion – Yr Ail Filtir (bl.11) Ania Quiros

Taith gerdded 5k – codi arian i Mind ac i Gronfa'r Ysgol – Ar ddiwrnod gaeafol Ebrill y 5ed fu'r ysgol gyfan allan yn cerdded i gloi Wythnos Iechyd Meddwl yr Ysgol. Diolch i bawb am eu cyfraniadau gyda'r ysgol yn codi dros £7,000 ar y diwrnod i'w rannu yn gyfartal rhwng Mind a chronfa'r ysgol.

Bore proffiliau – ar Fai yr 2il cynhaliwyd bore proffiliau blynyddol blwyddyn 11. Yn dilyn croeso a gair byr gan Dr Jones cafwyd araith bwrpasol gan Mr Edward Morgan, cwmni Castell Howell. Dilynwyd y bore gan brynghawn o ddathlu.

Eisteddfod yr Urdd – Dros yr hanner tymor teithiodd 29 o gystadleuwyr i Gaerdydd i gystadlu mewn lluo o gystadlaethau amrywiol. Llongyfarchiadau i'r canlynol am eu llwyddiant.

1af – Elin Fflur – Unawd cerdd dant 10-13;
Alaw Grug ac Elin Fflur – Deuawd cerdd dant;
Grŵp cerdd dant 10-13;
Côr cerdd dant bl 13 ac iau;
Mali Lima cogurdd bl 7-9;
Anell Dyfri – cyfansoddi bl 12/13.
2il – Bryn Richards – Unawd offer taro 7-9;
Elin Fflur – Unawd merched 10-13;
Côr SATB bl 13 ac iau;
Ensemble lleisiol 10-13;
Elin Fflur – Unawd alaw werin 10-13;
Parti llefaru 10-13.
3ydd – Côr bechgyn TB bl 13 ac iau;
Parti cerdd dant 7-9;
Tim Siarad Cyhoeddus;
Siwan Mair Jones – Unawd merched 7-9.

Bwystfilod Bro Myrddin – Croesawyd Eurig Salisbury a Gruffydd Owen i'r Adran Gymraeg y tymor hwn i gwrdd â'n tîm Talwrn y Beirdd – Bwystfilod Bro Myrddin. Bydd y criw ifanc o ddisgyblion bl 9 a 9 yn cystadlu yn erbyn Ysgol y Preseli, Ysgol Llangefni ac Ysgol Glan Clwyd ddiwedd Mehefin.

Gwobr Dug Caeredin – Llongyfarchiadau i 90 o ddisgyblion blwyddyn 11eg ar dderbyn eu tystysgrifau Efydd gwobr Dug Caeredin yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth yn ddiweddar.

Gwirfoddolwr / Cymydog Da De Cymru 2019 – Llongyfarchiadau i Sioned Tattersall o fl 13 am ennill gwobr Gwirfoddolwr / Cymydog Da 2019.

Llwyddiannau chwaraeon

Llwyddiant yn y Principality – Llongyfarchiadau enafwr i dîm rygbi hŷn yr ysgol ar ei buddugoliaeth o 46 i 12 yn erbyn ysgol Basaleg yng ngêm derfynol vase ysgolion Cymru. Diolch yn fawr i'r noddwyr sef Bysiau Ffoshelig a Chastell Howell. Roedd hi'n braf gweld yn agos i 600 o ddisgyblion a llu o rieni wedi teithio i gefnogi'r bechgyn. Diolch hefyd i Aled Griffiths, ein cyn-swyddog rygbi am hyfforddi ei gêm olaf i'r ysgol.

Pencampwyr Cymru – Ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Fai teithiodd criw o ferched yr ysgol i Stadiwm y Seintiau Newydd yng Nghroesoswallt i chwarae gêm derfynol cwpan ysgolion Cymru. Llwyddodd y tîm dan 15 i guro ysgol Pencoed o 4 gôl i 0. Felly, merched dan 15 oed yr ysgol yw Pencampwyr Cymru. Braf oedd gweld y merched mewn cit newydd sbon a noddwyd gan gwmni Teifi Forge.

Pencampwraig Cymru – Llongyfarchiadau i Amelia Dawber o fl 9 am fod yn Bencampwraig Cymru yn y gwregys melyn Taekwando am 2019.

Criced – Llongyfarchiadau i dîm criced bl 10 am ennill cystadleuaeth Lord Taverner yn ddiweddar.

Mabolgampau Bro Myrddin – Bu'r ysgol yn ffodus iawn i gael diwrnod sych ar gyfer y mabolgampau eleni. Roedd cystadlu brwd rhwng unigolion a rhwng y llysoedd gyda nifer o berfformiadau unigol disglair. Llwydiarth ddaeth yn fuddugol ar y diwrnod gyda sgôr o 927, Hergest yn ail gyda 684 o bwyntiau, Hengwrt yn 3ydd gyda 658 o bwyntiau a Pheniarth yn 4ydd gyda 576. Yn dilyn y drefn flynyddol rhoddwyd tlysau i'r pencampwyr o blith y merched a'r bechgyn a enillodd fwyaf o bwyntiau yn y cystadlaethau.

Yr enillwyr unigol eleni oedd:-

Bl.7 Merched – Efa Nicholas Vardill;

Bechgyn – Dion James;

Bl.8 Merched – Gwenllian Llwyd Jones;

Bechgyn – Zack Elvy;

Bl.9 Merched – Scarlett Mackenzie;

Bechgyn – Frank Morgan;

Bl.10 Merched – Daisy Thompson;

Bechgyn – Dafydd Jones.

Mabolgampau Dyfed – bu disgyblion yr ysgol yn brysur yn cystadlu ym Mabolgampau Dyfed yn ddiweddar; canlyniadau fel a ganlyn; 1af – 16 gwobr; 2il – 14 gwobr; 3ydd – 13 gwobr; 4ydd – 10 gwobr.